# Polisi a Chynllun Tân Mewn Argyfwng
# Emergency Fire Policy and Plan

Bydd y polisi hwn yn cael ei rannu gyda holl aelodau'r staff a'r bwrdd llywodraethol a bydd yn cael ei adolygu yn flynyddol neu yn gynt os bydd angen. Bydd copi o'r polisi hwn yn cael ei gadw drws nesaf i'r llyfr ymwelwyr yn y dderbynfa a byddwn yn sicrhau fod pob ymwelydd i'r ysgol yn ymwybodol o'r ddogfen.

**Sut fydd pobl yn cael ei rhybuddio os bydd tân?**

Os bydd tân yn yr ysgol yna bydd disgwyl i'r sawl sydd yn ei ddarganfod fynd at y larwm tân agosaf a thorri`r ddarn bach gwydr ble dywedir "Break Glass" (Ysgolion Mynach a Syr John Rhys) neu gwasgu'r botwm argyfwng (Ysgol Pontrhydfendigaid). Drwy wneud y weithred hyn fe fydd y larwm yn canu a bydd hyn yn cychwyn ar y weithdrefn gwacâd.

**Beth ddylai'r staff, myfyrwyr neu'r disgyblion ei wneud os byddent yn darganfod tân?**

Os bydd tân yn cael ei ddarganfod yn yr ysgol bydd disgwyl i'r sawl sydd yn ei ddarganfod fynd at y larwm tan agosaf a thorri`r darn bach gwydr sydd yn dweud "Break Glass" (Ysgolion Mynach a Syr John Rhys) neu gwasgu'r botwm argyfwng (Ysgol Pontrhydfendigaid). Fel yr sonir uchod bydd hyn yn cychwyn ar y weithdrefn gwacâd.

**Sut y dylem weithredu y weithdrefn gwacâd o'r ysgol**

Pan glywir y larwm tân mae disgwyl i bob person yn adeilad yr ysgol, yn cynnwys y gegin a'r neuadd ginio wacâu`r adeilad drwy`r drws tân agosaf a mwyaf diogel. Ble bynnag bosib fe fydd yr athrawon yn arwain y disgyblion o'r dosbarth/ardaloedd cymunedol mewn modd trefnus a thawel gydag unrhyw staff ategol yng nghefn y llinell. Pan yn gwacâu mae disgwyl i'r athrawon fynd â'u cofrestr dosbarth gyda nhw a gwneud eu ffordd i'r man ymgynnull.

Os oes disgyblion yn y tŷ bach / ardaloedd cymunedol yna dylent wneud eu ffordd yn syth i'r man ymgynnull ac ymuno gyda llinell y dosbarth pan gyrhaeddant. Ar yr un pryd dylai aelod penodedig o'r staff archwilio pob tŷ bach / ardal cymunedol ac os darganfyddir unrhyw ddisgybl yn yr ardaloedd hyn, rhaid eu tywys i'r man ymgynnull a'u gosod yn y rhesi cywir. Yr aelodau o staff sy`n gyfrifol am hyn yw Mrs Helen Davies (Pontrhydfendigaid), Bethan James (Mynach) a Caryl Jones (Syr John Rhys).

Y Pennaeth a'r athro penodedig fydd yn gyfrifol am archwilio'r ardaloedd hyn.

Disgwylir i staff sydd ddim yn y dosbarth ar ganiad y larwm tân wneud eu ffordd i'r man ymgynnull drwy'r allanfa agosaf. Os bydd amgylchiadau yn dweud fod dim posib dychwelyd i'r adeilad am beth amser yna gweithredu'r isod.

- Pobl ifanc – dylai pob ymdrech gael ei wneud i gysylltu â theulu / gwarchodwyr yr holl bobl ifanc gyda'r golwg iddynt eu casglu o'r ysgol cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae gan yr ysgol system dectsio/e-bostio, trydar neu weplyfr a ellir ei gael trwy ffôn yr ysgol. Os na fydd posib cael gafael ar rieni / gwarchodwyr yna bydd y bobl ifanc yn cael eu cadw o dan ofal y staff nes bydd rhywun yn eu casglu.

- Pethau gwerthfawr – y Pennaeth fydd â'r gofal o drefnu fod yr holl bethau gwerthfawr sydd wedi eu gadael yn yr ysgol yn cael eu nodi ynghyd â'u lleoliad hysbys diwethaf. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gall y wybodaeth yma gael ei drosglwyddo i'r gwasanaethau brys i'w cynorthwyo wrth adfer yr eitemau hyn.

***DS Nid ar unrhyw achlysur ddylai staff neu ddisgyblion ddychwelyd i'r adeilad yn dilyn gwacáu llawn, hyd nes fod y gwasanaethau brys yn caniatau hynny.***

**Ble y dylai pobl ymgynnull ar ôl iddynt adael y safle a'r gweithdrefnau ar gyfer gwirio os ydy safle wedi cael ei wacâu?**

Y Man Ymgynnull ar gyfer y staff a disgyblion ysgol yw'r iard brif fynedfa'r ysgol o flaen y giat wrth y briffordd.

Pan fydd yr athrawon dosbarth yn cyrraedd y Man Ymgynnull, byddant yn galw'r gofrestr ddosbarth. Bydd y Pennaeth/Pennaethiaid Cynorthwyol/Staff y swyddfa yn gyfrifol am gymryd y Ffurflenni Cyswllt Brys gyda nhw o'r swyddfa ynghyd â'r gofrestr staff. Cyfrifoldeb yr athrawon fydd sicrhau bod eu hystafelloedd dosbarth yn cael eu gwacâu yn gyfan gwbl. Bydd yr aelod o staff penodedig yn gyfrifol am wirio toiledau / mannau cymunedol. Ar ôl galw'r gofrestr, os oes rhywun ar goll dylai'r Swyddog Tân cyntaf i gyrraedd gael ei hysbysu o leoliad hysbys diwethaf unrhyw berson sydd ar goll.

**Adnabod llwybrau dihangfa allweddol, sut y gall pobl gael mynediad iddynt a dianc oddi wrthynt i fan o ddiogelwch llwyr**

Ein llwybrau dihangfa allweddol yw ein coridorau sy'n arwain at allanfeydd arferol ac allanfeydd tân penodol eraill. Mae ein Mannau Ymygynnull, fel nodwyd yn gynharach, yn cael eu lleoli wrth giat y briffordd.

**Trefniadau i ymladd tân**

Mae'r holl staff yn cael eu cynghori, pan yn darganfod tân, i ganu'r larwm yn ddi-oed a dechrau'r weithred wacáu. Ni ddylai staff gael eu hannog i ymladd tân gan mai'r flaenoriaeth yw gadael yr adeilad bob amser.

Dylsai diffoddwyr tân gael eu defnyddio yn unig gan staff hyfforddedig fel y dewis olaf.

Y brif flaenoriaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion, staff ac ymwelwyr yw i adael yr adeilad mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl.

**Dyletswyddau ac adnabod pwy sydd â chyfrifioldebau penodol os oes tân**

Y 'Person Cyfrifol' sef clerc yr ysgol (neu yn ei habsenoldeb, y Pennaeth, neu yn ei habsenoldeb y Dirprwy Bennaeth) ddeialu 999 a chysylltu â'r Gwasanaethau Brys a rhoi'r holl wybodaeth berthnasol iddynt.

Mae hefyd yn ddyletswydd ar y Pennaeth/Pennaeth Cynorthwyol i sicrhau bod galw cofrestr llawn yn cael ei wneud yn y Man Ymgynnull ac yna cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ar ôl iddynt gyrraedd.

Dylai'r Pennaeth/Pennaethiaid Cynorthwyol/Staff y Swyddfa gymryd y ffurflenni cyswllt mewn argyfwng, cofrestr staff, cynllun o'r ysgol a'r llyfr ymwelwyr i'r Man Ymgynnull. Yn ogystal, dylent gau drws y swyddfa, a sicrhau nad oes unrhyw ymwelwyr yn aros yn y cyntedd.

Dylai **athrawon dosbarth** arwain y disgyblion / ymwelwyr sydd yn eu gofal i'r Man Ymgynnull. Ar yr un pryd dylent fynd â'r gofrestr ddosbarth gyda hwy, cau drws yr ystafell ddosbarth ar eu hôl, galw'r gofrestr yn y Man Ymgynnull a rhoi gwybod i'r Pennaeth ar unwaith os oes unrhyw un ar goll.

**Staff Ategol**

Bydd y staff ategol yn aros gyda`u dosbarthiadau.

**Os, am unrhyw reswm, fod y staff dynodedig yn methu gwirio eu hardaloedd rhaid rhoi gwybod ar unwaith i'r swyddog cyfrifol, y Pennaeth/ pennaeth Cynorthwyol.**

**Trefniadau ar gyfer gadael yr adeilad yn ddiogel i'r bobl y nodwyd eu bod mewn perygl arbennig, megis plant ifanc, rhai ag anableddau, contractwyr, aelodau o'r cyhoedd / ymwelwyr;**

Bydd disgyblion yr ysgol yn cael eu hebrwng allan o'r adeilad gan yr athro dosbarth a / neu staff ategol, fel y nodir uchod.

Bydd ymwelwyr yn gadael yr adeilad gyda'r aelod o staff maent yn ei gwmni/chwmni.

Bydd contractwyr yn ymwybodol o weithdrefnau tân a gadael yr adeilad ar ôl clywed y larwm.

**Unrhyw beiriannau / cyfarpar / prosesau / cyflenwadau pŵer y mae angen eu hatal os bydd tân**

Y cogydd yw'r person dynodedig ar gyfer diffodd yr holl offer coginio yn y ffreutur.

Mae`r pwyntiau ynysiad ar gyfer y brif adeilad yw :

**Pontrhydfendigaid:**

Dŵr – Toiledau'r merched yn yr hen adeilad

Trydan – Dosbarth 2

Nwy – Wal allanol yr ystafell boiler (Os yw`r Alarwm Tân yn canu mae`r nwy yn cael ei ddiffodd yn awtomatig)

**Trefniadau ar gyfer cynllun argyfwng i'w ddefnyddio gan y rhai sy'n llogi rhan o'r safle**

Mae'r cynllun argyfwng yn cael ei gyflwyno i'r holl ymwelwyr a phobl sy'n ymwneud â llogi yr ysgol ac mae'n rhaid iddynt ddarllen y Cynllun cyn dechrau ar unrhyw waith. Yn ogystal, mae hefyd yn hanfodol bod yr holl ymwelwyr i'r ysgol yn llofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael yr ysgol. Bydd staff sy'n gyfrifol am redeg clwb ar ôl ysgol yn dilyn yr un gweithdrefnau ag uchod.

**Cynlluniau wrth gefn pan fydd systemau rhybuddio am dân ddim yn gweithio**

Mae'r system larwm tân yn cael eu profi a'u cynnal yn rheolaidd gan berson cymwys. Os oes unrhyw fai yn cael ei ganfod, yna cysylltir yn uniongyrchol â'r cwmni cynnal a chadw gan y Pennaeth a hysbysir yr holl staff bod y system yn ddiffygiol a pha mor hir mae'n debygol o fod yn ddiffygiol.  Mewn amgylchiadau o'r

fath, mae'r holl staff i barhau'n wyliadwrus a bydd y Pennaeth yn trefnu ffordd arall ar gyfer canu'r larwm hy darparu chwiban neu gloch law.

**Sut y bydd y gwasanaeth tân ac unrhyw wasanaethau angenrheidiol eraill yn cael eu galw a phwy fydd yn gyfrifol am wneud hyn**

Fel y sonir uchod –

Pontrhydfendigaid - clerc yr ysgol, Mrs Helen Davies (yn ei habsenoldeb, y Pennaeth, neu yn ei habsenoldeb y Dirprwy Bennaeth)

Mynach – Y Pennaeth, neu yn ei habsenoldeb y Dirprwy Bennath

Syr John Rhys - Y Pennaeth, neu yn ei habsenoldeb y Dirprwy Bennath

**Gweithdrefnau ar gyfer cwrdd â'r gwasanaeth tân ar eu cyrraeddiad a rhoi gwybod iddynt am unrhyw risgiau arbennig, ee Lleoliad y deunyddiau fflamadwy**

Y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth yn ei habsenoldeb - fel y nodir uchod.

**Pa hyfforddiant sydd ei angen a'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei roi**

Yn unol â'r polisi bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth tân cyffredinol a gweithdrefnau gwacáu a defnyddio diffoddwyr tân.

## Monitro ac adolygu

Rydym yn ymwybodol fod yn rhaid i ni fonitro ac adolygu ein polisi yn rheolaidd er mwyn cofnodi gwelliannau neu newidiadau.